



Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@Senedd.Cymru

2 Awst 2023

Annwyl Huw,

Rwyf yn ysgrifennu atoch i ofyn am gywiriad i'r cofnod o'm hymddangosiad gerbron y Pwyllgor ar 10 Gorffennaf. Mae'n ddrwg gennyf nad oeddwn yn gallu adolygu'r cofnod cyn eich dyddiad cau.

Ym mharagraff 145 awgrymais fod gwaith o Brifysgol Caerdydd - roeddwn yn cyfeirio at y llyfr "The Welsh Criminal Justice System: On The Jagged Edge", gan yr Athro Richard Wyn Jones a Doctor Robert Jones - yn cynnwys ystadegyn bod dwy ran o dair o'r rhai sydd yn y carchar gyda chyfeiriad preswyl yng Nghymru yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Mewn gwirionedd, er bod nifer o ystadegau perthnasol, nid oes ystadegyn yn y llyfr ar ba gyfran o bobl yn y carchar yng Nghymru sy'n dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, ac nid yw'r wybodaeth honno yn cael ei chyhoeddi'n rheolaidd ychwaith gan HMPPS.

Rwyf yn gobeithio y bydd y Pwyllgor yn cytuno, er hynny, fod y pwynt yr oeddwn yn ceisio ei gyfleu yn dal yn wir. Mae'r llyfr, er enghraifft, yn cynnwys yr ystadegyn ysgytwol canlynol: ar yr adeg y gwnaed yr ymchwil, am bob 10,000 o bobl Ddu sy'n byw yng Nghymru, dywedwyd bod 91 yn y carchar tra oedd y ffigur cyfatebol ar gyfer pobl Wyn yn 14. Mewn geiriau eraill, roedd pobl Ddu o Gymru wedi'u gorgynrychioli ym mhoblogaeth carchardai yn ôl ffactor o chwech o'i gymharu â'u cymheiriaid Gwyn.

Byddwn yn ddiolchgar pe gellid cymryd y camau priodol i sicrhau bod y cofnod yn adlewyrchu'r uchod.

Yn gywir

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.